



Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Chwefror, 2016

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Profiad Gwaith Blwyddyn 10

Bydd pob disgybl ym Mlwyddyn 10 yn mynychu cyfnod o brofiad gwaith rhwng **Mehefin 27^{ain} a Gorffennaf 1^{af} 2016**. Er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i ddewis profiad gwaith addas, bydd yr Ysgol neu chi (drwy drefnu hunan leoliad) yn gyfrifol am y trefniant.

Mae gennym fynediad yn yr ysgol i fas data o gyflogwyr sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol (RCT). Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd angen i'ch plentyn mynegi dewis ynglŷn â'r fath o brofiad gwaith hoffan fynychu. Bydd angen i bob disgybl roi dewis o dri lleoliad. Caiff y dewis terfynol ei gadarnhau nes ymlaen ond ni allwn addo bydd dewis eich plentyn ar gael iddynt.

Hunan leoliad

Y ffordd orau o sicrhau lleoliad delfrydol i'ch plentyn yw drwy drefnu hunan leoliad. Os ydych chi'n adnabod cyflogwr sydd yn barod i gynnig lleoliad i'ch plentyn a wnewch chi gwblhau'r daflen amgaeedig. Mae hi'n hanfodol fod gan y cyflogwr hwn yswiriant addas. (Nid yw Yswiriant Cyfrifoldeb Cyhoeddus yn ddigonol). Bydd angen y wybodaeth am y dewis a manylion yr hunan leoliad ar yr ysgol a'r Awdurdod Lleol (RCT). Dychwelwch y ffurflen amgaeedig gyda'r caniatâd i'r Ysgol. **Ni all unrhyw ddisgybl mynychu lleoliad heb fod yr Awdurdod Lleol wedi cymeradwyo'r sefydliad yn gyntaf.**

Gofynnwn yn garedig i chi gefnogi eich plentyn wrth iddyn nhw fynd ati i wneud y dewis. Dychwelwch y bonyn caniatâd isod i'r ysgol cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

Yn gywir,

Mr. A Rogers

Arweinydd Cynnydd a Lles Blwyddyn 10



Profiad Gwaith BI.10: 27^{ain} Mehefin - 1^{af} Gorffennaf, 2016

Rhoddaf fy nghaniatâd i _____ Dosb. _____ gwblhau cyfnod o brofiad gwaith.

Rhoddaf ganiatâd i ddefnyddio cymorth cyntaf pe bai argyfwng.

Llofnod rhiant/gwarchodwr: _____

Dyddiad: _____